Comisiwn y Senedd

# Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-26

Crynodeb

www.senedd.wales

# Contents

**1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud ........ 3**

Ein Gwerthoedd ........ 3

**2. Ein blaenoriaethau ........ 4**

Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol ........ 4

Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd ........ 4

Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo ........ 4

Senedd gynhwysol, hygyrch i bobl Cymru ........ 5

**3. Atebolrwydd ac Adborth ........ 6**

# 1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae Comisiwn y Senedd yn gwasanaethu'r Senedd i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel senedd gref, hygyrch, gynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi Aelodau o'r Senedd.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, a phedwar Aelod arall a enwebir gan y prif bleidiau gwleidyddol. Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd sy'n arwain cydweithwyr y Comisiwn.

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn ac fe'u defnyddir i lywio'r penderfyniadau a wnawn a sut rydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid a'n gilydd bob dydd. Dyma sut rydym yn meithrin cydberthnasau ac yn sicrhau mai Comisiwn y Senedd yw'r lle gorau posibl i weithio ynddo.



# 2. Ein blaenoriaethau

Rydym am adeiladu ar ein llwyddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Dros y pedair blynedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar y pedair blaenoriaeth a ganlyn, lle hoffem wneud cynnydd yn gynt:

## Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol

Mae ein sefydliad yn rhoi gwerth ar amrywiaeth ac yn blaenoriaethu cynhwysiant, gan ei gynnwys ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Byddwn yn:

- Gwneud ein strategaethau'n gydnaws â'n rhaglenni gwaith
- Cefnogi perchnogaeth ac atebolrwydd am gyflawni'r strategaeth
- Gwneud gwell defnydd o'n data
- Gweithio gyda phartneriaid allanol i barhau i wella

## Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd

Mae ein holl gydweithwyr yn deall eu rôl o ran hyrwyddo cynhwysiant a meithrin gweithle cynhwysol ac amgylchedd seneddol. Mae staff uwch yn fwy atebol am gyflawni'r strategaeth hon.

Byddwn yn:

- Datblygu a pharatoi ein gilydd ar gyfer gwelliant parhaus
- Cefnogi ac annog lleisiau amrywiol

## Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo

Mae ein gweithlu'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'r Senedd yn ei gwasanaethu ac mae'n gynrychioliadol ar bob lefel yn ein sefydliad.

Mae'r ystod ehangaf o bobl yn ystyried Comisiwn y Senedd fel darpar gyflogwr deniadol sy'n cynnig profiad unigryw, gwerth chweil i weithwyr yn gweithio wrth galon democratiaeth yng Nghymru.

Mae ein cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i wireddu eu llawn botensial.

Byddwn yn:

- Gwneud ein strategaethau’n gydnaws â'n rhaglenni gwaith gan ddefnyddio ein data
- Dysgu gwersi o ffyrdd newydd o weithio
- Canolbwyntio ar ein brand fel cyflogwr i ehangu ein cyrhaeddiad
- Canolbwyntio ar ein rhaglenni datblygu mewnol i hybu amrywiaeth

## Senedd gynhwysol, hygyrch i bobl Cymru

Mae'r Senedd yn sefydliad cynhwysol a hygyrch sy'n nodi ac yn cael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n atal dinasyddion rhag cymryd rhan yn ei waith mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt.

Mae pobl Cymru yn deall gwaith y Senedd a sut y gallai effeithio arnynt hwy a'u cymunedau.

Byddwn yn:

- Cefnogi Aelodau o'r Senedd i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith fel darparwyr gwasanaethau ac fel cyflogwyr
- Ymgysylltu â'r ystod ehangaf o ddinasyddion ac yn gwneud y Senedd a'i gwaith yn hygyrch drwy wahanol blatfformau
- Teilwra gwybodaeth am y Senedd a'i gwaith i gyrraedd amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd.
- Cefnogi Datblygiad Strategol Pwyllgorau i gynyddu cynhwysiant.

# 3. Atebolrwydd ac Adborth

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, byddwn yn llunio ac yn cyhoeddi diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus gan gynnwys ein hamcanion, ochr yn ochr â data monitro amrywiaeth y gweithlu, recriwtio, a chyflogau.

Fodd bynnag, cysylltwch â ni os oes angen unrhyw wybodaeth arnoch mewn fformat arall neu os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau am ein strategaeth.

Cysylltwch ag:

amrywiaeth@senedd.cymru